

Canllawiau Newydd Ystafell Ymchwil – Covid-19

Gwneud Apwyntiad

Ar hyn o bryd yr ydym yn gweithredu system apwyntiadau yn unig, ac bydd angen i chwi archebu eich dogfennau o flaen llaw. Yr ydym angen diwrnod neu fwy o rybudd gennych fel bod modd estyn y dogfennau i chwi a sicrhau fod y dogfennau hynny ar gael gan y byddwn yn rhoi yr holl ddogfennau a welir gan y cyhoedd mewn cwarantin am gyfnod o 72 awr. Mae'r dogfennau yn cael eu rhoi mewn cwarantin i sicrhau fod ein defnyddwyr a staff yn ddiogel wrth ymdrin a'n casgliadau.

Archebu Dogfennau

Gellir archebu deunydd drwy'r bori drwy'r catalog ar-lein <https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/DATRhagorol/default.aspx?iaith=cy> ac yna cysylltu gyda'r archifdy gyda eich dewis o ddogfennau fel bod modd i staff sicrhau fod y dogfennau hynny ar gael. Neu os nad ydych yn sicr pa ddogfennau yr ydych eu hangen mae croeso i chwi gysylltu fel eich bod yn gallu cael cymorth gan aelod o staff. Cysylltwch drwy e-bostio archifau@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio:

Archifdy Caernarfon (01286) 679 095

Archifdy Meirionnydd, Dolgellau (01341) 424 682

Cadarnhau Apwyntiad

Mae ein horiau agor wedi newid. Pan fyddwn yn gallu cadarnhau fod y dogfennau yr ydych eu hangen ar gael byddwn yn cadarnhau dyddiad eich apwyntiad ac byddwch wedyn yn derbyn amser **penodol yn ystod yr oriau a nodir isod** i ddod i mewn i'r adeilad i sicrhau ymbellhau cymdeithasol gyda defnyddwyr eraill y Gwasanaeth ac aelodau staff. Gan fod y niferoedd all ddod i'r archifdai wedi eu cyfyngu bydd angen i chwi wneud apwyntiad ychwanegol os ydych eisiau dod ag unrhyw berson arall gyda chwi.

Archifdy Caernarfon

Archifdy Meirionnydd

Dydd Llun: Ar gau

Dydd Llun: 9.30-12.00, 1.30-4.30

Dydd Mawrth: Ar gau

Dydd Mawrth: 9.30-12.00, 1.30-4.30

Dydd Mercher: 9.30-12.00, 1.30-4.30

Dydd Mercher: Ar gau

Dydd Iau: 9.30-12.00, 1.30-4.30

Dydd Iau: Ar gau

Dydd Gwener: 9.30-12.00, 1.30-4.30

Dydd Gwener: Ar gau

Os nad ydych yn teimlo'n dda ar y diwrnod yr ydych wedi derbyn apwyntiad neu ddim yn gallu dod a fuasech cystal a chysylltu i ail-drefnu neu gohirio'r apwyntiad os gwelwch yn dda.

Yn ystod eich ymweliad

Pan y byddwch yn dod i mewn i'r Archifdai bydd gofyn i chwi:

- wisgo gorchudd gwyneb.
- ddefnyddio'r loceri i gadw unrhyw beth na fydd eisiau arnoch tra yn yr ystafell ymchwil.
- olchi eich dwylo cyn eistedd yn yr ystafell ymchwil.

Tra yn yr ystafell ymchwil i sicrhau diogelwch i chwi ac eraill gofynnir i chwi

- beidio a chrwydro o amgylch y ystafell ymchwil
- cadw at rheolau ymbellhau cymdeithasol gyda defnyddwyr eraill a staff y Gwasanaeth wrth fynd i'r toiled ac wrth adael yr adeilad.

Dogfennau

Dim ond y deunydd yr ydych wedi ei archebu fydd ar gael i chwi. Ni fyddwn yn estyn unrhyw ddogfennau eraill yn ystod eich ymweliad. Yn ddibynol ar faint o ddeunydd yr ydych wedi ei archebu bydd y deunydd unai wedi ei osod ar y bwrdd yn barod i chwi neu bydd aelod o staff yn darparu eich deunydd ar droli. Os bydd y deunydd yn cael ei ddarparu ar droli bydd yr aelod staff yn dod a'r troli atoch, ac wedi i'r aelod staff gamu'n ôl gallwch nôl y deunydd a dychwelyd i'r bwrdd. Gofynnir i chwi adael y deunydd ar y bwrdd oni bai eich bod wedi archebu ychwaneg o ddeunydd. Os ydych wedi archebu ychwaneg o ddogfennau bydd angen i chwi son wrth y staff pan ydych yn barod i gael golwg arnynt.

Os ydych yn cael trafferth gydag unrhyw agwedd o'r deunydd yr ydych wedi ei archebu, e.e. darllen gair, dewch a'r ddogfen at y sgrin ac mi wnaiff aelod o staff geisio bod o gymorth.

Ni fydd y canlynol ar gael yn ystod eich ymweliad:

- Cyfrifiaduron
- Peiriannau ffilm a fiche
- Mynegai
- Catalogau (oni bai eich bod wedi ei archebu o flaen llaw)
- Llyfrau cyfeiriol (oni bai ei bod wedi eu harchebu o flaen llaw)
- Plygiau ar gyfer eich cyfrifiaduron personol

Llungopiau

Bydd modd i chwi archebu a thalu am lungopiau, ond gan y bydd y dogfennau yr ydych wedi ei ddefnyddio yn cael ei roi mewn cwarantin am 72 awr ni fyddwn yn gwneud llungopiau ar y diwrnod yr ydych yn ymweld. Byddwn yn postio'r deunydd i chwi wedi i'r cyfnod cwarantin ddod i ben.